OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 613

# Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024

## RHAN 4

### Diwygiadau i Ddeddf 2014

**Diwygiadau i Atodlen 2 i Ddeddf 2014**

**6.**—(1) Mae Atodlen 2 (categorïau cofrestru) i Ddeddf 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl 1 ym mharagraff 1, ar ôl y cofnod ar gyfer "Gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol" mewnosoder—

| *Categori* | *Disgrifiad* |
|---|---|
| "Ymarferydd dysgu oedolion | Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer neu ar ran darparwr dysgu oedolion cymunedol. |
| Pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach | Person sy'n ymgymryd (neu sy'n dymuno ymgymryd) â rôl uwch-arweinydd o ran rheoli addysgu a dysgu mewn neu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru." |

(3) Ym mharagraff 3, yn y lleoedd priodol, mewnosoder—

"ystyr "addysg bellach" ("*further education*") yw addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas i ofynion personau dros yr oedran ysgol gorfodol;";

"ystyr "addysg uwch" ("*higher education*") yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**);";

"ystyr "darparwr dysgu oedolion cymunedol" ("*community-based adult learning provider*") yw darparwr (heblaw ysgol, sefydliad addysg bellach neu sefydliad addysg uwch) addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer oedolion sy'n seiliedig yn y gymuned ac sydd wedi ei ariannu neu ei ddarparu fel arall gan awdurdod lleol, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil(**2**) neu Weinidogion Cymru;";

"ystyr "oedolyn" ("*adult*") yw person sy'n 18 oed neu drosodd;";

"ystyr "sefydliad addysg uwch" ("*higher education institution*") yw sefydliad sy'n dod o fewn adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**3**);".

(**1**) p. 40.
(**2**) Fe'i sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).
(**3**) p. 31.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

**Diwygiadau i Atodlen 4 i Ddeddf 2014**

**7.**—(1) Mae Atodlen 4 (mynegai o eiriau ac ymadroddion wedi eu diffinio) i Ddeddf 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl 3, yn y lleoedd priodol, mewnosoder—

| *Gair neu ymadrodd* | *Gair neu ymadrodd yn y Saesneg* | *Darpariaeth berthnasol* |
|---|---|---|
| "Addysg bellach | Further education | Atodlen 2" |
| "Addysg uwch | Higher education | Atodlen 2" |
| "Darparwr dysgu oedolion cymunedol | Community-based adult learning provider | Atodlen 2" |
| "Oedolyn | Adult | Atodlen 2" |
| "Pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach | Principal or senior leader in further education | Atodlen 2" |
| "Sefydliad addysg uwch | Higher education institution | Atodlen 2" |
| "Ymarferydd dysgu oedolion | Adult learning practitioner | Atodlen 2" |